# Rhaglen Gyflawn

Gwasanaethau Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 16EG MEHEFIN, 2015**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor,**

**Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans  01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd 10 Mehefin 2015)

## PWYLLGOR PENSIYNAU

### AELODAETH (7)

### Plaid Cymru (2)

Y Cynghorwyr

Peredur Jenkins W. Tudor Owen

### Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

Trevor Edwards John Pughe Roberts

### Llafur (1)

Y Cynghorydd Glyn Thomas

### Democratiaid Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen W. Churchman

### Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Peter Read

### Aelodau Cyfetholedig

Y Cynghorydd Margaret Lyon, Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cynghorydd Hywel E. Jones, Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2015/16

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd am 2015/16

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

## 6. COFNODION 1 - 4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 15 fel rhai cywir

## 7. CYFARFODYDD Y PANEL BUDDSODDI 5 - 6

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid

## 8. CYSONI ISAFSWM PENSIWN GWARANTEDIG (IPG) 7 - 8

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Pensiynau

**PWYLLGOR PENSIYNAU, 24.03.15**

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Trevor Edwards, Peredur Jenkins, Margaret Lyon (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), W Tudor Owen (Cadeirydd), John P. Roberts a Gethin Glyn Williams

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr H Eifion Jones (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn) a Peter Read

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Tudor Owen gyda chroeso arbennig i'r Cynghorydd Gethin Glyn Williams i'w gyfarfod cyntaf. Nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21ain o Hydref 2014 fel rhai cywir.

**5. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH BUDDSODDI BLYNYDDOL AR GYFER 2015/16**

a) Eglurodd y Pennaeth Cyllid ei bod yn ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyriwyd y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Cyngor Gwynedd am 2015/16, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Argymhellodd Pwyllgor Archwilio (17.2.15) i'r Cyngor llawn fabwysiadu Strategaeth Cyngor Gwynedd, a cafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 5 Mawrth 2015.

b) Gofynnwyd i'r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol am 2015/16, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn.

c) Gofynnwyd hefyd i'r Pwyllgor Pensiynau wneud cais i'r Cyngor (er nad yw'n gorff ar wahân) i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2015 ymlaen.

**PENDERFYNWYD CANIATÁU I ARIAN DROS BEN Y GRONFA BENSIWN BARHAU I GAEL EI GRONNI GYDA LLIF- ARIAN CYFFREDINOL Y CYNGOR O 1 EBRILL 2015 YMLAEN**

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2014/15 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

**a)** Cyflwynwyd, er gwybodaeth adroddiad ar berfformiad swyddogaeth rheoli trysorlys. Eglurwyd bod Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Côd TM CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol bod cynghorau yn adrodd ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn (canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn).

**b)** Amlygwyd mai diogelwch y prifswm yw prif amcan y Cyngor wrth fuddsoddi.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â buddsoddiad perthnasol i banciau Gwlad yr Iâ, adroddwyd bod y Cyngor bellach wedi adennill 94% o'i fuddsoddiadau ym Manc Heritable. Ychwanegwyd bod tebygolrwydd i ddosraniadau pellach gael eu derbyn, er nad yw'r gweinyddwyr wedi gwneud amcangyfrif swyddogol o'r adenillion terfynol hyd yma. Mynegodd yr Aelodau bod hyn yn newyddion calonogol.

**DERBYNIWYD, ER GWYBODAETH ADRODDIAD Y PENNAETH CYLLID**

## 7. BUDDSODDIAD ECWITI PREIFAT

**a)** Mewn cyfarfod diweddar o'r Panel Buddsoddi Cronfa Bensiwn trafodwyd adroddiad gan Hymans Robertson ar opsiynau ar gyfer ymrwymiad pellach i ecwiti preifat. Amlygwyd mai argymhelliad y Panel oedd buddsoddi $38 miliwn (£25 miliwm) mewn cronfa o gronfeydd ecwiti gyda Partners Group.

**b)** Gofynnwyd i'r Pwyllgor gadarnhau buddsoddiad uniongyrchol gyda Partners Group Secondary 2015.

**PENDERFYNWYD cadarnhau buddsoddiad uniongyrchol gyda Partners Group Secondary 2015 yn unol â barn Panel Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn.**

## 8. DIWEDDARIAD AR Y BWRDD PENSIWN

**a)** Cyflwynwyd adroddiad i aelodau'r Pwyllgor yn eu hysbysu o drefniadau arfaethedig i sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol. Nodwyd bod yr adroddiad eisoes wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar y 5ed o Fawrth lle mabwysiadwyd newidiadau perthnasol i Gyfansoddiad y Cyngor fuasai'n sicrhau bod y Bwrdd Pensiwn wedi ei sefydlu yn unol â'r rheoliadau.

**b)** Amlinellwyd bod rhaid i bob Cronfa Bensiwn sefydlu Bwrdd Pensiwn i gyflawni rôl o graffu erbyn y 1af o Ebrill 2015. Rôl y Bwrdd yw cynorthwyo'r awdurdod gweinyddol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r holl reoliadau, deddfwriaethau a gofynion sydd yn berthnasol i'r cynllun. Bydd y Bwrdd hefyd yn cynorthwyo'r awdurdod i sicrhau llywodraethu a gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon ar gyfer y gronfa.

**c)** Adroddwyd y bydd chwe aelod i'r Bwrdd Pensiwn fydd yn cynnwys tri cynrychiolydd y cyflogwyr (i gynnwys un i gynrychioli'r Awdurdod Gweinyddol) a

3 cynrychiolydd o aelodau'r cynllun. Bydd y broses o benodi aelodau'r Bwrdd yn digwydd yn ystod y misoedd nesaf gyda chais am enwebiadau i'w derbyn cyn diwedd mis Ebrill 2015. Y bwriad yw cael y Bwrdd wedi ei sefydlu erbyn mis Mehefin gyda chyfle i Aelodau newydd dderbyn hyfforddiant priodol. Mae angen cynnal cyfarfod cyntaf y Bwrdd cyn diwedd Gorffennaf 2015.

ch) Bydd diweddariad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Pensiynau ( Mehefin 16eg 2015). Gwnaed cais i'r Aelodau newydd gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau.

**DERBYNIWYD YR ADRODDIAD**

**9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Cynigodd y Cadeirydd y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 7, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol, 1972

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ariannol am gwmni a bod ganddynt hawl i ddisgwyl y bydd y wybodaeth yn cael ei gadw'n gyfrinachol. Mae natur y wybodaeth yn yr adroddiad yn fasnachol sensitif ynglŷn â ffioedd am gytundeb buddsoddi a gall o'i wneud yn gyhoeddus niweidio sefyllfa ariannol y Gronfa Bensiwn.

Mae'r amseriad yn bwysig ac mae'r budd cyhoeddus o barchu'r cyfrinachedd hwnnw yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus a ddaw o ddatgelu'r wybodaeth.

**10. MANDAD ENILLION ABSOLIWT**

a) Cyflwynwyd i'r Aelodau argymhelliad i benderfynu ar newidiadau i strwythyr y buddsoddiad mewn cronfa bondiau. Amlygwyd bod cynnig wedi ei wneud i ailstrwythuro'r buddsoddiad er mwyn sicrhau cydymffurfiad gyda'r Rheoliadau Buddsoddi. Mae'r cwmni wedi cytuno i ysgwyddo'r costau ychwanegol am dair blynedd.

b) Bydd cyfle i'r Panel Buddsoddi holi'r cwmni ym mis Mai os oes unrhyw pryderon yn parhau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr argymhelliad gan nodi bod cyfle yma i fonitro'r sefyllfa yn ystod y tair blynedd nesaf cyn gwneud penderfyniad i dalu'r costau ychwanegol neu i ail-ystyried y buddsoddiad wedi'r cyfnod yma.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 2:40pm

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Pensiynau |
| DYDDIAD | 16 Mehefin 2015 |
| TEITL | Cyfarfodydd y Panel Buddsoddi |
| PWRPAS | I newid lleoliad cyfarfodydd y Panel Buddsoddi o fis Tachwedd 2015 ymlaen |
| AWDUR | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid |

1. Ar 7 Hydref 2013, cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol adroddiad i'r Pwyllgor Pensiynau, yn cynnig newid i'r ffordd mae'r Cyngor yn monitro ei buddsoddiadau (yn arbennig y rhai yn y maes eiddo). Derbyniodd y Pwyllgor y trefniant canlynol, i'w weithredu o fis Chwefror 2014 am gyfnod prawf o flwyddyn:

| **Mis / Lleoliad** | **Cwmni** |
|---|---|
| Chwefror 2014<br>(Llundain) | Fidelity<br>Veritas<br>BlackRock |
| Mai 2014<br>(Llundain) | UBS<br>Lothbury<br>BlackRock<br>Threadneedle<br>Insight |
| Gorffennaf 2014<br>(Caernarfon) | Fidelity<br>Veritas |
| Tachwedd 2014<br>(Caernarfon) | Insight<br>Partners Group |

2. Wedi treialu'r trefniant newydd am ychydig dros flwyddyn, rwyf wedi dod i'r canlyniad fod teithio i Lundain am y cyfarfodydd ym mis Chwefror a Mai yn anamserol i nifer ohonom ni, oherwydd pwysau gwaith yn y cyfnod, gyda'r Strategaeth Ariannol / Cyllideb yn Chwefror a chau cyfrifon y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn ym Mai.

3. Yn fy marn i, fyddai'n gwneud mwy o synnwyr i drefnu cyfarfodydd Chwefror a Mai yng Nghaernarfon a chyfarfodydd Gorffennaf a Thachwedd yn Llundain, yn enwedig gan fod Cyfarfod Blynyddol y Gronfa Bensiwn yn cael ei gynnal ym mis Medi o hyn ymlaen, ac nid ar yr un diwrnod a'r Panel Buddsoddi ym mis Gorffennaf.

4. Mae'r cyfarfod nesaf o'r Panel Buddsoddi eisoes wedi'i drefnu ar 30 Gorffennaf yng Nghaernarfon, gyda Fidelity a Veritas.

5. Felly, gwahoddir sylwadau ar y trefniant canlynol, gyda'r bwriad o ddechrau ym mis Tachwedd 2015 a pharhau gyda'r cylch blynyddol isod hyd nes adroddir yn wahanol:

| **Mis / Lleoliad** | **Cwmni** |
|---|---|
| Tachwedd 2015<br>(Llundain) | UBS<br>Lothbury<br>BlackRock<br>Threadneedle<br>Insight |
| Chwefror 2016<br>(Caernarfon) | Fidelity<br>Veritas |
| Mai 2016<br>(Caernarfon) | Insight<br>Partners Group |
| Gorffennaf 2016<br>(Llundain) | Fidelity<br>Veritas<br>BlackRock |

# Eitem 8

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Pensiynau** |
| **DYDDIAD** | **16 Mehefin 2015** |
| **TEITL** | **Cysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig (IPG)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **I hysbysu Aelodau o'r angen i gysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig unigol aelodau'r cynllun cyn Mawrth 2018** |
| **AWDUR** | **Gareth Jones – Rheolwr Pensiynau** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Er gwybodaeth ac i ol-gymeradwyo cost meddalwedd arbennig.** |

## 1. Cefndir

1.1 Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) wedi' gontractio allan i Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth (S2P), neu SERPS fel ei elwir yn gynharach, ers ei gyflwyno yn Ebrill 1978.

1.2 I gymhwyso am dystysgrif 'contractio allan' rhaid oedd gwarantu bod lefel y buddion a ddarparwyd am fod beth bynnag gyfartal a beth ddarperir o dan SERPS. Roedd derbyn y dystysgrif yn galluogi aelodau a chyflogwyr dalu yswiriant gwladol lefel is yn unol â thabl 'D'.

1.3 Mewn ffurf Isafswm Pensiwn Gwarantedig (IPG) oedd y warant wedi' gyfrifo gan yr Adran Nawdd Cymdeithaso (DSS). Telir y IPG o oed ymddeol y wladwriaeth fel rhan o brif fuddion y cynllun pensiwn, ond pe bae'r IPG yn uwch y raddfa uchaf oedd yn daladwy o'r dyddiad hynny.

1.4 O ddyddiad codi pensiwn cyntaf yn dilyn oed ymddeol y wladwriaeth cyfrifoldeb y DSS oedd talu codiadau ar yr IPG a hynny gyda phensiwn gwladwriaeth yr unigolyn. O Ebrill 1988 cymhlethwyd pethe eto gyda chyflwyno lefel arall o IPG a oedd yn destun raddfa mynegeio wahanol i'r IPG gwreiddiol. I wahaniaethu rhwng y ddwy raddfa fe'i cyfeiriwyd atynt fel IPG78 a IPG88.

1.5 Seliwyd croniad IPG ar gyfraniadau yswiriant gwladol rhwng terfannau is ac uwch o enillion. Daeth y drefn yma i ben o Ebrill 1997 a chael ei ddisodli gan brawf cyfeirnod cynllun yn seiliedig ar y lefel o fuddion a ddarperir gan y cynllun. Pasiodd holl gynlluniau sector gyhoeddus y prawf hwn a pharhau i fod yn gynlluniau wedi contractio allan.

1.6 Er i gronni IPG dod i ben yn 1997, mae'r 19 mlynedd ers 1978 yn golygu bod nifer sylweddol o aelodau'r cynllun yn parhau yn destun asesiad IPG ar gyfer y codiadau pensiwn blynyddol neu fel rhan o gyfrifiad trosglwyddiadau.

## 2. Pensiwn Un Haen y Wladwriaeth

2.1 Cyflwynodd Deddf Pensiynau 2014 bensiwn 'un-haen' syml i ddisodli S2P. Ei fwriad oedd darparu pensiwn gwlad sylfaenol o oddeutu £150 yr wythnos heb yr angen o brofi modd i dderbyn ychwanegiad i gyfarfod a gwarant isafswm safonol credyd pensiwn. Bwriedir hefyd i'r gwerth gadw i fyny a'r warrant isafswm incwm.

2.2 Bydd y pensiwn un-haen yn cychwyn ar 6ed Ebrill 2016 sydd yn golygu bod contractio allan yn dod i ben. Er mai bwriad symleiddio cynllun y wladwriaeth ydyw mi fydd yn creu sawl goblygiad gan gynnwys newid i'r graddfeydd cyfraniadau yswiriant gwladol ar gyfer aelodau a chyflogwyr o ddiddymu'r Tabl 'D' is a grybwyllwyd ym mharagraff (1.2) a gosod pawb o dan raddfeydd uwch Tabl 'A'.

2.3 Goblygiad arall yw bod CThEM, sydd bellach yn gweinyddu contraction allan, wedi datgan eu bwriad i ysgrifennu i bob aelod yn 2018 i'w hysbysu am werth eu IPG a pha gynllun sydd yn gyfrifol am eu talu.

2.4 Yn y cyfamser cynghorir cynlluniau wedi contractio allan i gysoni eu IPG i sicrhau bod yr holl IPG sydd ganddynt yng nghyd fynd a'r IPG ar gofnodion CThEM. Os fethir a gwneud hyn erbyn Ebrill 2018 bydd cynlluniau yn beichio cyfrifoldeb am yr IPGau lle nid oes ganddynt gyfrifoldeb i'w talu.

2.5 Mae arolygon cenedlaethol wedi dangos bod lefelau uchel o wallau. Gall fod o ganlyniad i broblemau cyfrifiadurol ddioddefodd y DSS yn y 1990au yn ogystal a bod cyflogwyr / chynlluniau pensiwn wedi nodi rhifau cyfeirnodau anghywir wrth ynn eu hadroddiadau blynyddol a digwyddiadau.

## 3. Cysoni IPGau

3.1 Fel cynlluniau eraill wedi contractio allan bydd rhaid i Gronfa Bensiwn Gwynedd wneud y gwaith cymryd llawer o amser a chymhleth hyn erbyn Ebrill 2018, pryd fydd CThEM yn ysgrifennu i aelodau.

3.2 Mae asesiad presennol o'r gwaith yn awgrymu bod tri rhan iddo, yn gyntaf fydd y gymhariaeth gychwynnol, i'w ddilyn gan gynllunio strategol a darfod gyda chysoni a diweddaru systemau. Ar gyflawni'r gymhariaeth gychwynnol bydd posib gweld yn gliriach dwyster y rhannau strategol, cynllunio a chywiro.

3.3 Ar ôl darganfod y lefel gwallau a dwyster tebygol y gwaith, gan gynnwys effaith gôr a tan-daliadau, bydd rhaid i'r cynllunio strategol gymryd i ystyriaeth lefelau goddefiant y gwallau, terfynau diddymu a'r Adnoddau bosib fydd angen i gyflawni'r gwaith.

3.4 I gynorthwyo gyda'r gwaith cymharu dechreuol mae meddalwedd arbenigol yn hanfodol. Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi arwyddo cytundeb gyda Heywood, darparwyr meddalwedd gweinyddu'r cynllun, am ddatrysiad cydnaws ar gost o £8,300 am bob blwyddyn lawn neu rannol y bydd ar waith. Bydd y gwasanaeth yma yn cynorthwyo'r gwaith cymharu cychwynnol yn enfawr ynghyd a chael cefnogaeth ei ymgynghorwyr yn y ffordd arferol.

## 4. Argymhelliad

4.1 Gofynnir i aelodau nodi'r broses cysoni IPG, y gost debygol a'i effaith ar adnoddau'r uned bensiynau.

4.2 Cytuno'n ôl-weithredol i ariannu'r meddalwedd ychwanegol ar gost oddeutu £8,300 y flwyddyn lawn neu rannol.

4.3 Nodi y cyflwynir adroddiadau diweddaru'r Pwyllgor ar y gwaith o dro i dro a all gynnwys cais ariannu staff dros dro a chais i benderfyniadau ar oddefiant gwallau a lefelau diddymu dyled.